# Cofnodion cryno - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mawrth 2019

Amser: 10.30 - 13.00

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Robert (Bob) Evans (Cadeirydd), Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor<br>Ann Beynon, OBE, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor<br>Suzy Davies AC, Comisiynydd<br>Hugh Widdis, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Gareth Lucey (Swyddfa Archwilio Cymru) |
| Staff y Comisiwn: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu<br>Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd<br>Kathryn Hughes, Clerc y Pwyllgor a Rheolwr Risg<br>Buddug Saer, Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | Carys Evans, Cydlynydd Brexit (Eitem 12)<br><br>Kathryn Potter, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil (Eitem 12) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriad gan Ann-Marie Harkin.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r tîm clercio am eu cymorth gyda'i gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd.

1.3 Nid oedd buddiannau i'w datgan.

## 2 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, y camau i'w cymryd a'r materion sy'n codi

*ACARAC (02-19) Papur 1a - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019*

*ACARAC (02-19) Papur 2 – Crynodeb o'r camau i'w cymryd*

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror.

2.2 Cam 2.2 (Cronfa Gyfunol Cymru): Roedd Gareth wedi cwrdd â'r Dirprwy Gyfarwyddwr newydd sy'n gyfrifol am y Gronfa yn Llywodraeth Cymru ar 21 Mawrth a oedd wedi cytuno i gyfnewid gwybodaeth er mwyn osgoi'r problemau a gododd y llynedd. Croesawodd y Cadeirydd y wybodaeth hon a diolchodd i Gareth am ei ymdrechion.

## 3 Adroddiad diweddaru Archwilio Mewnol

*ACARAC (02-19) Papur 3 – adroddiad diweddaru*

3.1 Cyflwynodd Gareth Watts ei adroddiad yn rhoi braslun o'r gwaith roedd wedi'i gyflawni'r tu hwnt i archwilio mewnol.

## 4 Y Cynllun Archwilio Mewnol

*ACARAC (02-19) Papur 4 – Cynllun Archwilio Mewnol 2019-20*

3.1 Cyflwynodd Gareth Watts ei adroddiad yn rhoi braslun o'r gwaith roedd wedi'i gyflawni'r tu hwnt i archwilio mewnol.

3.2 Oherwydd bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal mor fuan ar ôl y cyfarfod ym mis Chwefror, nid oedd dim adroddiadau archwilio mewnol i'w cyflwyno. Byddai

unrhyw adroddiadau a gymeradwyir cyn y cyfarfod ym mis Mehefin yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor ymlaen llaw.

3.3 Cadarnhaodd Gareth ei fod yn gweithio dros dro fel Swyddog Diogelu Data dynodedig y Comisiwn ac eglurodd y trefniant a roddwyd ar waith gyda swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru iddo ymgymryd â’r swyddogaeth diogelu data a GDPR yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth.

3.4 Roedd Gareth hefyd wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda'r Comisiwn Etholiadol ynghylch y newidiadau arfaethedig i’r trefniadau llywodraethu sydd wedi’u cynnwys yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Cytunodd i baratoi nodyn yn egluro’r goblygiadau posibl i Gomisiwn y Cynulliad pan fyddai rhagor o wybodaeth ar gael.

3.5 Mewn perthynas â'r adolygiad o gaffael, trafododd aelodau'r Pwyllgor sut y gallai'r Comisiwn ymgysylltu'n well â chyflenwyr bach o Gymru. Dywedodd un aelod o'r Pwyllgor ei fod yn bresennol mewn cyfarfod o Siambr Fasnach leol pan drafodwyd y mater hwn. Cytunodd Dave Tosh i gwrdd ag Ann Beynon a Jan Koziel (Pennaeth Caffael) i drafod sut y gellid ymgysylltu â’r sefydliadau perthnasol wrth ddatblygu strategaeth gaffael y Comisiwn er mwyn cael darlun cliriach o’r hyn sy’n rhwystro’r gadwyn gyflenwi rhag ymgysylltu â'r sector cyhoeddus.

3.6 Roedd y Pwyllgor yn amau a ddylai’r gwaith archwilio ganolbwyntio ar y Gyfarwyddiaeth Fusnes. Roedd Gareth a Siwan Davies wedi trafod amseriad archwiliadau yn y dyfodol a chwmpas y gwaith hwnnw, ond roedd Siwan yn y broses o benodi Pennaeth Gwasanaeth Pwyllgorau a fyddai'n gyfrifol am arwain y gwaith hwn.

3.7 Roedd y Cadeirydd yn falch o’r cyfle i fod yn rhan o’r trafodaethau gyda Gareth a Siwan ynghylch cylch gorchwyl adolygiad cynhwysfawr y Pwyllgor.

3.8 Diolchodd Gareth i aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau a dywedodd y byddai’n falch o gael awgrymiadau ychwanegol drwy’r e-bost am ei gynllun archwilio. Cytunodd i anfon yr adolygiad o'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol at y Cadeirydd ac roedd yn hapus i aildrefnu'r adolygiad o absenoldeb salwch i sicrhau bod adroddiad yn cael ei gymeradwyo erbyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC).

3.9 Cadarnhaodd Gareth y byddai ei adroddiad blynyddol, i'w gyflwyno ym mis Mehefin, yn cofnodi unrhyw argymhellion na chawasant eu rhoi ar waith.

3.10 Dywedodd Gareth nad oedd y Siarter Archwilio Mewnol na Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) wedi'u diweddaru. Cadarnhaodd hefyd fod Archwilio Mewnol yn parhau i gydymffurfio â PSIAS a bod yr Asesiad Ansawdd Allanol nesaf i'w gynnal erbyn Ebrill 2022.

**Camau i'w cymryd**

- (3.4) Gareth i baratoi nodyn am y goblygiadau posibl ar gyfer trefniadau llywodraethu Comisiwn y Cynulliad sy'n deillio o gynigion yn y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sy'n ymwneud â'r Comisiwn Etholiadol.
- (3.5) Dave i gwrdd ag Ann Beynon a Jan Koziel i drafod sut y gellid ymgysylltu â'r sefydliadau perthnasol wrth ddatblygu strategaeth gaffael y Comisiwn er mwyn cael darlun cliriach o'r hyn sy'n rhwystro'r gadwyn gyflenwi rhag ymgysylltu â'r sector cyhoeddus.
- (3.6) Gareth a Siwan i gynnal trafodaethau â Bob ynghylch cynlluniau ar gyfer adolygiadau sicrwydd yng Nghyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad.
- (3.8) Aelodau'r Pwyllgor i anfon sylwadau at Gareth ar Gynllun Archwilio Mewnol 2019-20.
- (3.8) Gareth i anfon ei adroddiad ar yr adolygiad o'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol at y Cadeirydd pan fydd ar gael.
- (3.8) Gareth i gynnal yr adolygiad o absenoldeb salwch yn gynt i sicrhau bod adroddiad yn cael ei gymeradwyo erbyn sesiwn graffu PAC yn yr hydref.

## 5 Y Siarter Archwilio Mewnol a Chydymffurfiad Archwilio Mewnol â Safon Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)

*ACARAC (02-19) Papur 5 – Y Siarter Archwilio Mewnol*

3.10 Dywedodd Gareth nad oedd y Siarter Archwilio Mewnol na Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) wedi'u diweddaru. Cadarnhaodd hefyd fod Archwilio Mewnol yn parhau i gydymffurfio â PSIAS a bod yr Asesiad Ansawdd Allanol nesaf i'w gynnal erbyn Ebrill 2022.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru

*ACARAC (02-19) Papur 6 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru*

4.1 Cyflwynodd Gareth Lucey ei bapur diweddaru a dywedodd y byddai'r ffi archwilio arfaethedig yn aros yr un fath â'r llynedd, tra byddai'n cael ei ddilysu'n fewnol.

4.2 Cadarnhaodd fod y gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau ym mis Chwefror a mis Mawrth. Byddai'r archwiliad terfynol yn dechrau ar 13 Mai a byddai unrhyw faterion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

4.3 Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed am y cynnydd a wnaed gyda’r gwaith archwilio ac roedd yn croesawu’r ffaith y byddai’r ffi’n seiliedig ar gyfradd y llynedd.

## 7 Adolygiad o'r Protocol ar gyfer Cydweithio

*ACARAC (02-19) Papur 7 – Y Protocol ar gyfer Cydweithio*

4.4 Cytunodd Gareth Lucey a Gareth Watts fod y protocol presennol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Aethant ati i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am y modd roeddent wedi cydymffurfio â'r protocol dros y 12 mis diwethaf.

## 8 Datganiad Llywodraethu Drafft 2018-19

*ACARAC (02-19) Papur 8 – y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft*

5.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gwerthfawrogi’r ffaith bod Datganiad Llywodraethu drafft mor gynhwysfawr wedi’i baratoi mor gynnar yn y broses.

5.2 Disgrifiodd Manon Antoniazzi y broses o gasglu sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr er mwyn paratoi’r Datganiad Llywodraethu a'r sesiwn herio yr aeth Hugh Widdis iddi ym mis Chwefror.

5.3 Cafwyd sylwadau ac awgrymiadau ynglŷn â’r datganiad drafft a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys ynddo cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor eto ym mis Mehefin fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

5.4 Mewn ymateb i gwestiwn am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig, cytunodd Dave i anfon y cynigion at y Pwyllgor cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn eu cymeradwyo.

**Cam i’w gymryd**

- (5.4) Y tîm clercio i anfon y cynigion ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol at aelodau’r Pwyllgor cyn eu cyflwyno i’r Comisiwn eu cymeradwyo.

## 9 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon- amserlen

*ACARAC (02-19) Papur 9 – amserlen*

6.1 Disgrifiodd Nia Morgan y broses a ddilynwyd y llynedd, ac roedd pob aelod o'r Pwyllgor a fu'n ymwneud ag adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cytuno ei bod wedi gweithio'n dda. Ei bwriad oedd cyhoeddi drafft bythefnos cyn y cyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal ar 17 Mehefin.

6.2 Cadarnhaodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd y dylai fod mewn sefyllfa i gyflwyno Adroddiad Cwblhau Archwilio terfynol (Adroddiad ISA 260) yn y cyfarfod ym mis Mehefin.

6.3 Mewn ymateb i gwestiynau am lofnodi, gosod a chraffu ar yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, cytunodd Nia i ychwanegu rhagor o fanylion at yr amserlen i gynnwys y sesiynau craffu.

**Cam i'w gymryd**

- (6.3) Ychwanegu'r gweithgaredd at yr amserlen ar ôl ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, ee llofnod Archwilydd Cyffredinol cynorthwyol Cymru, gosod yr adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno, sesiynau craffu etc.

## 10 Adroddiad Blynyddol drafft yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

*ACARAC (02-19) Papur 10 - Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth*

7.1 Cyflwynodd Dave adroddiad drafft y SIRO a oedd yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed, yn rhoi sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

7.2 Y prif ffocws ar gyfer 2019-20 oedd rhoi'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ar waith a gweithio gyda thîm prosiect y Senedd Ieuenctid i sicrhau cydymffurfiad. Cafwyd un achos o golli data personol y bu angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) amdano ond ni fu angen cymryd unrhyw gamau pellach.

7.3 Roedd hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch hefyd wedi bod yn faes allweddol yn ystod y cyfnod hwn. Cadarnhaodd Dave fod Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth hefyd yn cael cynnig y sesiynau hyfforddi hyn ond roedd gwendid yn parhau yn y maes hwn.

7.4 Roedd Ann Beynon eisoes wedi dosbarthu papur Swyddfa'r Cabinet o'r enw '*Seiberddiogelwch ar gyfer cwmnïau FTSE 350*' a fyddai'n cael ei drafod fel rhan o'r eitem diweddaru ar seibeddiogelwch mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Adroddiad ar risgiau corfforaethol

*ACARAC (02-19) Papur 11 - Risgiau Corfforaethol*

*ACARAC (02-19) Papur 11 - Atodiad A - Crynodeb o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol*

*ACARAC (02-19) Papur 11 - Atodiad A -Risgiau Corfforaethol wedi'u plotio*

8.1 Nododd y Pwyllgor y newidiadau yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Roeddent yn falch o'r cynnydd a wnaed o ran y Senedd Ieuenctid ond cytunodd â Dave fod yr elfen diogelu a chydymffurfio â GDPR yn risgiau tymor hir y byddai angen eu monitro'n rheolaidd.

## 12 Archwiliad beirniadol o un risg sydd eisoes wedi'i nodi neu risg newydd

*ACARAC (02-19) Papur 12 - Risgiau Corfforaethol Brexit*

9.1 Croesawodd y Cadeirydd Kathryn Potter a Carys Evans i'r cyfarfod. Roedd y Pwyllgor yn sylweddoli bod yr ansicrwydd ynglŷn â Brexit yn parhau ond roedd yn croesawu'r wybodaeth a gyflwynwyd.

9.2 Ymatebodd Kathryn, Carys a Siwan i'r cwestiynau a gododd y Pwyllgor a oedd yn canolbwyntio ar sut roedd y gwaith yn cael ei ariannu, y goblygiadau i Reolau Sefydlog y Cynulliad a rôl y pwyllgorau craffu.

9.3 Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi gan y modd roedd y Comisiwn yn rheoli'r maes cymhleth hwn ac yn defnyddio adnoddau o feysydd gwasanaeth eraill. Roeddent hefyd yn croesawu'r defnydd o academyddion a'r wybodaeth yr oedd y staff yn ei chael gan yr arbenigwyr hyn.

9.4 Rhoddodd Gareth Watts a Dave Tosh drosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ystyried effaith gorfforaethol Brexit hefyd. Aethant ati i grynhoi'r meysydd allweddol yn ymwneud â chaffael a chadwyni cyflenwi, Adnoddau Dynol a TGCh gan amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yma.

9.5 Cytunodd y Pwyllgor i drafod risgiau Brexit eto fel eitem o bwys mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Actions**

- (9.2) Siwan i ychwanegu'r manylion diweddaraf ynghylch capasiti ac adnoddau at risg gorfforaethol Brexit wedi i Gomisiwn y Cynulliad eu trafod.

- (9.4) Y tîm clercio i ychwanegu Brexit at y flaenraglen waith fel eitem o bwys i'w thrafod pan fo'n briodol.

## 13 Adolygiad blynyddol o bolisïau Twyll a Chwythu'r Chwiban

*ACARAC (02-19) Papur 13 - Y wybodaeth ddiweddaraf am y Polisi Chwythu'r Chwiban a'r Polisi Twyll*

10.1 Cadarnhaodd Gareth nad oedd y ddau bolisi wedi newid ers iddynt gael eu hadolygu ym mis Ebrill 2018. Nid oedd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban wedi'u cofnodi ond roedd y Comisiwn yn ymwybodol o'r angen i gynnal lefelau ymwybyddiaeth a rhoi'r polisïau ar brawf yn llawn.

## 14 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid

*ACARAC (02-19) Papur 14 - Y wybodaeth ddiweddaraf am Sefyllfa Ariannol 2018-19 a 2019-20 a Chyllideb 2020-21*

11.1 Rhoddodd Nia y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa gyllidebol bresennol. Bu blwyddyn ariannol 2018-19 yn gyfnod prysur i'r Comisiwn gan y bu cryn alw am adnoddau gan gynnwys adnoddau ar gyfer Diwygio'r Cynulliad, Brexit a'r Senedd Ieuenctid.

11.2 Nid oedd y Pwyllgor Cyllid wedi ymateb eto i farn y Comisiwn ynghylch gosod cyllidebau'n unol â Bloc Cymru. Cytunodd Nia i hysbysu'r Pwyllgor yn ogystal â dosbarthu adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus roedd Comisiwn y Cynulliad i fod yn ei drafod yr wythnos ganlynol.

**Camau i'w cymryd**

- (11.2) Nia i ddosbarthu amserlen y gyllideb, adroddiad PAC ac ymateb y Comisiwn i aelodau'r Pwyllgor.

## 15 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

*ACARAC (02-19) Papur 15 -Cylch gorchwyl diwygiedig*

12.1 Derbyniodd y Pwyllgor yr un newid yn y cylch gorchwyl. Byddai'r fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan ACARAC.

12.2 Roedd y Cadeirydd am gofnodi y byddai croeso i staff y Comisiwn ddod i gyfarfodydd yn y dyfodol fel cyfleoedd datblygu, os oedd Manon a'r Cyfarwyddwyr yn teimlo bod hynny'n briodol.

## 16 Crynodeb o'r ymadawiadau

*ACARAC (02-19) Papur 16 – Crynodeb o’r ymadawiadau*

13.1 Nododd y Pwyllgor fod tri wedi ymadael â’r gweithdrefnau caffael arferol.

## 17 Blaenraglen Waith

*ACARAC (02-19) Papur 17 – Y flaenraglen waith*

14.1 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ddiwygiedig a chytunodd i'r tîm clercio ad-drefnu sesiwn breifat gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Trefnwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar 17 Mehefin 2019.